# Sut i wneud Ffon Lafant

**Byddwch angen:** Lafant, rhuban, cotwm/llinyn, siswrn.



**Cam 1** Dewiswch eich lafant – ceisiwch ddefnyddio'r rhai sydd â choesau tewion, hir. Dewiswch odrif o goesau – defnyddiais 13 ohonynt.

**Cam 2** Sicrhewch fod gwaelodion y blodau yn lefel â'i gilydd a chlymwch y cwbl ynghyd fel yr isod.

**Cam 3** Plygwch y coesau yn ôl dros y blodau yn ofalus fel eu bod yn cau am y blodau fel caets.

**Cam 4** Rhowch y rhuban o'ch dewis drwy'r blodau ac allan drwy'r coesau. Gwehyddwch y rhuban o dan un coesyn ac yna dros y nesaf.

**Cam 5** Ail-wnewch y patrwm hwn yr holl ffordd – ceisiwch ei gadw'n dynn. Y tro cyntaf yw'r anoddaf! Wedyn, dylech wneud y patrwm bob yn ail – lle'r aethoch chi dros goesyn y tro diwethaf, dylech nawr fynd oddi tano (dyma pam eich bod angen odrif o goesau).

**Cam 6** Parhewch gyda hyn yr holl ffordd i lawr y blodau. Bydd yn chwyddo allan ac yn dod yn ôl i mewn eto wrth i chi gyrraedd y coesau gan eu bod yn rhy agos at ei gilydd i'w gwehyddu.

**Cam 7** Clymwch y rhuban. Yna gallwch ei droelli o gwmpas y coesau gyda'i gilydd.

**Cam 8** Clymwch ddolen a'i hongian i sychu. Yn draddodiadol, cânt eu hongian mewn cypyrddau dillad neu eu gosod mewn droriau i adael arogl ar eich dillad.



